Agored Cymru CADcentre Gwella Dysgu & Sgiliau

Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund

Prentisiaeth Sylfaenol mewn Technoleg Gwybodaeth

Mae hwn yn gymhwyster ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno neu sydd eisoes yn gweithio gyda Thechnoleg Gwybodaeth. Ariannir y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru ac ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop*.

Mae'r Fframwaith Prentisiaeth Sylfaenol TG yn cynnwys NOCN Diploma Lefel2 ar gyfer Defnyddwyr TG ITQ (QCF) a Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu, cymhwyso Rhif a Llythrennedd Digidol.

Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y gweithle, ar amseroedd cyfleus wedi'u teilwra i anghenion eich sefydliad. Mae hyfforddiant yn hyblyg ond mae gofyn i ddysgwyr ymrwymo i isafswm o 3 awr bob mis.

I fynegi eich diddordeb, neu i gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch 0808 2000 129 neu anfonwch eich manylion cyswllt drwy e-bost i enquiries@cadcentreuk.com

Mae'r wybodaeth farchnata hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg
Cyflwynir y cynllun yn y Gymraeg a Saesneg

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

matrix quality standard for information advice and guidance services approved by the matrix Accreditation Body

Prentisiaethau Apprenticeships

Prentisiaeth Sylfaenol TG*:
Mae'r fframwaith hwn yn cwrdd ag anghenion dysgwyr sydd eisoes yn cael eu cyflogi mewn rôl defnyddwyr TG. Mae'r fframwaith yn darparu dysgwyr gyda chyfres gydlynol o gymwysterau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o sut i weithio a chyfathrebu mewn unrhyw amgylchedd busnes. Bydd y fframwaith yn helpu dysgwyr i gynhyrchu'r wybodaeth angenrheidiol ochr yn ochr â sgiliau ymarferol er mwyn sicrhau safonau dibynadwy cymhwysedd a sgiliau sy'n berthnasol ac yn benodol i'r sefydliad. Mae'r fframwaith yn cynnwys dwy elfen (a) Diploma ar gyfer Defnyddwyr TG ITQ (QCF) a (b) Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Llythrennedd Digidol.

(a) Diploma Level 2 i Ddefnyddwyr TG ITQ (QCF)
Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi cyfle i ddatblygu set o sgiliau eang a fydd yn hwyluso cynnydd yn y gweithle a/neu ymlaen i ddysgu pellach y dysgwr. Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys unedau gorfodol a dewisol.

Unedau Gorfodol (16 credyd)
Gwella Cynhyrchaeth trwy Ddefnyddio TG
Deall Potensial TG
Datblygu Effeithiolrwydd Personol a Thîm

Unedau Dewisol – lleiafswm o 22 credyd o'r canlynol:
Defnyddio'r Rhyngrwyd (4 Credyd)
Defnyddio E-bost (3 Credyd)
Meddalwedd Bwrddgyhoeddi (4 Credyd)
Meddalwedd Cyflwyno (4 Credyd)
Meddalwedd Taenlen (4 Credyd)
Meddalwedd Prosesu Geiriau (4 Credyd)
(Mae Unedau eraill ar gael – siaradwch â'ch aseswr am ragor o wybodaeth)

(b) Sgiliau Hanfodol Cymru
Mae gan y sgiliau hyn rhan bwysig i chwarae wrth helpu dysgwyr gynyddu eu sgiliau ac i gwblhau eu rhaglen ddysgu yn effeithiol.

Cyfathrebu Hanfodol (Lefel1) yn canolbwyntio ar sgiliau mewn:
- Siarad â Gwrando
- Darllen
- Ysgrifennu

Er mwyn ennill y cymhwyster Cyfathrebu Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

Cymhwyso Rhif Hanfodol (Lefel 1) yn canolbwyntio ar sgiliau mewn:
- Deall Data Rhifiadol
- Cynnal Cyfrifiadau
- Dehongli a Chyflwyno Canlyniadau a Chanfyddiadau

Er mwyn ennill y cymhwyster Cymhwyso Rhif Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr.

Llythrennedd Digidol Hanfodol (Lefel 2) yn canolbwyntio ar sgiliau mewn:
Llythrennedd Digidol Hanfodol yn ymwneud â gwybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad yn y defnydd o ddyfeisiau digidol
- Chyfrifoldeb Digidol – gwybod sut i aros yn ddiogel ac i weithredu'n briodol ar-lein
- Cynhyrchiant Digidol - gwybod pa dechnolegau, offer a thechnegau i'w defnyddio a sut i drefnu, rhannu a diogelu gwybodaeth ddigidol
- Gwybodaeth Ddigidol Llythrennedd – yn gallu dod o hyd i, gwerthuso'n feirniadol a defnyddio gwybodaeth ddigidol yn ddiogel
- Cydweithio'n Ddigidol – rhannu gwybodaeth a chydweithio ag eraill i gwblhau tasgau a datrys problemau
- Creadigrwydd Digidol – bod yn gallu defnyddio cyfryngau digidol i gwblhau tasgau, creu cynnwys a datblygu cyfleoedd
- Dysgu Digidol – deall sut y gall technoleg ymestyn cyfleoedd dysgu

Er mwyn ennill y cymhwyster Llythrennedd Digidol Hanfodol rhaid i ddysgwyr arddangos sgiliau mewn tasg dan reolaeth a phrawf cadarnhau byr

***Dibynnol ar gwrdd â meini prawf cymhwyster ac argaeledd ariannu llywodraethol**